

taith cerdded

MYNYDD Y DREF CONWY MOUNTAIN

ehangwch eich gorwelion...
broaden your horizons...

walk

• Golygfeydd gwych



• Great views



GWYBODAETH AM Y DAITH

Taith ysgafn yng nghefn gwlad Conwy efo golygfeydd trawiadol o Eryri a Dyffryn Conwy.

- Tirwedd:** hawdd i'w gerdded, rhai dringfeydd hawdd.
- Pellter:** 6.2 cilometr / 3.5 milltir. Fyda'r daith estynedig ychwanegwch 1.6 cilometr / 1 filltir.
- Amser:** 2 awr (3 yn cynnwys y daith estynedig)
- Llwybrau:** llwybrau trwy gaeau, traciau a ffyrdd B.
- Cŵn:** dylid cadw cŵn ar dennyn
- Cyfeirnod grid dechrau a gorffen:** SH 788717
- Map:** Explorer OL17
- Lluniaeth:** i'w cael yn y siop leol a'r tafarnau

SUT YDW I'N MYND YNO?

Efo trên: Mae yna arhosfan ar gais yn Conwy.
Ffôn: 0845 7484950 www.firstnorthwestern.co.uk

Efo bws: Ffôn: Traveline Cymru 08712002223
www.travelinecymru.info

Efo car: Dilynwch yr A55, cymerwch y troad i Gonwy.
Dilynwch yr A547 i'r dref.

RHAGOR O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY

Am ragor o wybodaeth a thafenni ar amrywiaeth o wahanol deithiau cerdded: ewch i: www.conwy.gov.uk/cefngwlad

Ebost: cg.cs@conwy.gov.uk
Ffôn Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy: 01492 575200/575290

Am gopi o'r llyfryn hwn mewn print mawr ffonwch 01492 575290

WALK INFORMATION

- Terrain:**
- Paths:**
- Dogs:** dogs should be kept on a lead
- Start and finish grid reference:** SH
- Map:** Explorer OL
- Refreshments:** available in local shop and pubs

HOW DO I GET THERE?

By train: There is a request stop at Conwy.
Tel: 0845 7484950 www.firstnorthwestern.co.uk

By bus: Tel: Traveline Wales 08712002223
www.travelinecymru.info


By car: Follow the A55, take the turning signposted to Conwy. Follow the A547 to the town.

MORE WALKS IN CONWY

For information and leaflets on a variety of walks: visit: www.conwy.gov.uk/countryside

Email: cg.cs@conwy.gov.uk
Conwy Countryside Service tel: 01492 575200 / 575290

For a large print copy of this booklet please call 01492 575290




© Haeffraint y Goron a haeliau cronfa ddata 2014 Ardalgeirys Ordnans 100023380
Mae haeliau ac amodau'n gysylltiedig â gwybodaeth ddata hwn
© Crown copyright and database right 2014 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.

Rhoddir trewydded ddiwydiolwch nad yw gyflwynedig, heb freinddai. I chi weith y Data Trewyddedig ar gyfer deffnydd antasachol yn unig, o'i ychyd y bydd ar gael gan Gynor Bwrdeistref Sirol Conwy. Nid oeswch gopïo, i'w hyspysu, i'w hyspysu, i'w hyspysu neu i'w hyspysu arall drefnu bod y Data Trewyddedig ar gael mewn unrhyw ffordd i'w drydydd partion, a Ni allir haeliau trewydded parti i ortodi telerau'r drywydded hon i'w hyspysu.
You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Conwy County Borough Council makes it available. You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form; and Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.

© Haeffraint y Goron a haeliau cronfa ddata 2014 Ardalgeirys Ordnans 100023380
Mae haeliau ac amodau'n gysylltiedig â gwybodaeth ddata hwn
© Crown copyright and database right 2014 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.

© Hwylfaint y Gernod a hawliau crofta o ddata 2014 Ardalwy Ordnans 100023380
 Mae hawliau i'w gweld yn ymddangos fel delweddau o'r awyrgoed.
 © Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023380
 Use of this data is subject to terms and conditions.



Trin y tir yn yr oesoedd canol

Dychmygwch eich hunan yn defnyddio haearn gwthio fel aradr i drin pridd tenau, caregog y bryniau hyn. Mae olion y gwaith yma i'w gweld yn eglur yn y cefnau a rhychau i'r gorllewin o Fynydd y Dref (Pwynt 6). Roedd cymuned o ffermydd yma yn yr Oesoedd Canol a gellir gweld olion ohonynt hwy hyd heddiw (e.e. Pwynt 7). Credir mai taoegion oedd y bobl hyn, ar dir yn perthyn i awdurdod eglwsig. Dengys tomenydd o gregyn gleision ger rhai o'r ffermydd eu bod hefyd yn cael llawer o'u bwyd o'r môr gerllaw.

Medieval tilling

Picture yourself pushing a breast plough through the thin, stony soil of these hills. The visual results of these efforts are well displayed in the ridges and furrows to the west of Conwy Mountain (Point 6). In the Middle Ages a community of farmsteads existed here and their remnants can still be found (e.g. Point 7). The people are thought to have been bondsmen on land owned by an ecclesiastical authority. Dumps of mussel shells near some farmsteads reveal that they also obtained much food from the sea nearby.

Meini melin

Roedd y creigiau folcanig cnaplog a geir ar y mynydd (e.e. Pwynt 2), yn bwysig i'r cyfan o'r Deyrnas Unedig fel ffynhonnell ar gyfer meini melin i falu blawd yn yr 1790s au gan na ellid cael rhai Ffrengig yn ystod y Gwrthryfel Ffrengig a'r rhyfeloedd wedi hynny yn erbyn Ffrainc. Gellir gweld un ardal lle bu chwarella, i'r dwyrain o'r copa (Pwynt 1). Ni fyddid yn torri meini mewn cylchoedd cyfan ond mewn darnau trionglog a gaent eu dal efo'i gilydd gan fandiau haearn i greu meini crynion.

Millstones

The nodular volcanic rocks found on the mountain (e.g. Point 2), were an important U.K. wide source of millstone for grinding flour in the 1790s as the sources of French millstone dried up during the French Revolution and subsequent wars with France. One area of quarrying can be seen to the east of the summit (Point 1). The stones were not cut in whole circles but in triangular sections which were then bound by iron bands to form circular millstones.

Allwedd / Key

- - - Teithiau a awgrymir / Suggested routes
- - - Llwybr eraill / Other routes
- 1 Pwyntiau o ddiddordeb / Points of interest
- P Parcio / Parking
- B Safle bws / Bus stop
- ▭ Adeiladau / Buildings
- + Eglwys / Church
- 🌳 Coetir / Woodland

Chwareli Conwy

Byddai'r graig folcanig ar ochr ogleddol y mynydd yn cael ei chloddio fel 'carreg tsieni' yn ystod y ganrif ddiwethaf. Cai ei chludo ar y môr i Runcorn ac wedyn ar y tir i ardal y crochendai yng nghanoldir Lloegr, lle roedd yn werthfawr oherwydd y silica ynddi. Yn ddiweddarach, fe'i defnyddid i wneud ffyrdd ond credir i'r chwarel gau cyn yr Ail Ryfel Byd. Mae wynebau clogwyn fertigol yn y chwareli ac nid yw mynd iddynt yn cael ei argymhell.

Siarter Brenhinol

Rhoddwyd Mynydd y Dref i Abaty Aberconwy gan Llywelyn Fawr. Yn ddiweddarach, rhoddodd Edward I y tir i dref Conwy dan Siarter Brenhinol ac mae wedi dod erbyn hyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Mynydd y Dref hefyd yn gomin trefol efo hawliau pori.

Tân a rhew

Dychmygwch eich bod yn sefyll ar lethrau ynys folcanig. Gerllaw, mae'r mynydd tanllyd ei hunan yn gwthio meindwr o lafa gwydraidd eirias yn araf at i fyny, a hwnnw'n disgyn ar adegau gan yrru rwbwl gwynias yn llithro i lawr yr ochrau. Pan fydd llawer yn disgyn, daw hefyd gymylau eirias o ddarnau gwydraidd o lafa sydd bron iawn wedi toddi, a'r rheiny'n rhowlio'r ar hyd y ddaear i lawr y llethr ac weithiau'n cyrraedd y môr. Gall haen isaf, boeth a thrwchus y cwmwl redeg o dan y tonnau i ffurfio haen danfor boeth ddau fetr o drwch. Wrth iddi oeri pan ddaw i gysylltiad â'r tonnau bydd yn ffurfio craciau sfferaidd rhyfedd. Anodd credu hyn? Meddyliwch am ynys Montserrat yn India'r Gorllewin. Wedyn edrychwch eto ar y creigiau o'ch hamgylch. Ar hyd crib Mynydd y Dref (e.e. pwynt 3) gallwch ganfod yr haenau o 'ludw' folcanig graeanog. Ger Bwlch Sychnant (Pwynt 8) gallwch weld y domen anhrefnus o flociau gwydraidd o hen lafa efo staeniadau haearn arno, ac ar hyd y llwybr troed ar y llethr deheuol fe welwch gefnen isel a chlogfeini ar eu pennau eu hunain (e.e. Pwynt 2) o'r creigiau cnapiog a oerodd mewn dwr. Faint o amser yn ôl? Tua 450 miliwn o flynyddoedd; felly mae popeth wedi tawelu erbyn hyn! Ers hynny mae'r holl ardal wedi cael ei gogwyddo a'i gwthio at i fyny gan wrthdrawiad cyfandiroedd. Efallai y gwelsoch sut mae'r graig o dan Gastell Conwy wedi gogwyddo hefyd. Yn ystod y miliynau o flynyddoedd diwethaf, bu rhewlifoedd a haenau o rew yn cafnio dyffryn Conwy ac wedyn yn symud yn ôl eto, gan lenwi llawr y dyffryn efo graean, mwd a mawn a gadael clogfeini mawr crynion ar ôl (Pwynt 4). Pan oedd y rhewlifoedd yn cyrraedd eu pwynt uchaf, ffurfiwyd Bwlch Sychnant gan ddwr oedd yn llifo o dan y rhew. Ar Alltwen, crëwyd y llethrau sgrî trwy fod rhew yn malu'r graig galed ddoi i'r wyneb lle roedd yn rhydd o afael oer y rhewlif.

Conwy quarries

The volcanic rock on the north side of the mountain was quarried as 'china-stone' in the last century. This was shipped to Runcorn and then by land to the Potteries where it was valued for its silica content. More recently it was used for road stone but the quarry is thought to have closed before the Second World War. The quarries have vertical cliff faces and access to them is not encouraged.

Royal Charter

Conwy Mountain was granted to the Abbey of Aberconwy by Llywelyn the Great. Edward I later granted the land under Royal Charter to Conwy Town and this has passed down to the present Conwy County Borough Council. The mountain is also an urban common with grazing rights.

Fire and ice

Imagine that you are standing on the slopes of a volcanic island. Nearby, the volcano itself is slowly pushing up a spire of glowing-hot glassy lava, which collapses from time to time sending down avalanches of red-hot rubble. Big collapses are accompanied by the release of glowing clouds of almost-molten, glassy fragments of lava, which roll down the slope, hugging the ground and sometimes reaching the sea. The hot, dense bottom layer of the cloud might run below the waves to form a hot, submarine layer a couple of metres thick. As it cools in contact with the water it forms strange spherical cracks. Difficult to believe? Think of the island of Montserrat in the West Indies. Then look again at the rocks around you. Along the crest of Conwy Mountain (e.g. Point 3) you can find the layers of gritty volcanic 'ash'. Near the Sychnant Pass (Point 8) you can see the chaotic pile of glassy, iron-stained blocks of ancient lava, and along the footpath on the southern slope you will find a low ridge and isolated boulders (e.g. Point 2) of the nodular rocks which cooled in water. How long ago? About 450 million years; so it is all quite now! Since then the whole area has been tilted and pushed up by continental collision. You might have seen how the rock beneath Conwy Castle is also tilted. The last few million years have seen glaciers and ice sheets gouging out the Conwy valley and retreating again, filling the valley floor with gravel, mud and peat and leaving behind large, rounded boulders (Point 4). When the glaciers were at their highest, water flowing beneath the ice gouged out the Sychnant Pass. On Alltwen, the scree slopes are the result of frost shattering the hard rock outcrops where they were free of the glacier's icy grip.



Gweddillion bonheddig

Yn mhwynt 5 mae siambr gladdu (cist) o'r Oes Efydd (1900 - 550 Cyn Crist) a fyddai wedi cynwys gweddillion amlogi rhyw berson pwysig. Byddai'r lludw wedi bod mewn pot yn y ddaear, efo twmpath a chapfaen drostynt a chylch o gerrig oddi amgylch. Mae'r twmpath wedi mynd erbyn hyn ond gellir gweld y gapfaen a'r cylch cerrig.

Yn llawn lliw

Yn yr haf, bydd y bryn ar dân efo lliw melyn yr eithin mân a phorffor clychau'r grug, ac yn fuan daw lliw lelog gwan y grug cyffredin i gymryd ei le. Yn yr hydref bydd y rhedyn yn troi'r llethrau isaf yn frown fel lliw rhwd. Mae'r planhigion hyn yn byw ar y priddoedd tenau asidig sy'n deillio o'r creigiau folcanig a thywodfaen. Mae'n ddi-ddorol sylwi ar y ffordd mae coed yn cael cyfle i dyfuar y llethrau isaf, wedi'u hamddiffyn gan y rhedyn tal rhag y defaid sy'n pori yma. Efallai y gwelwch goed derw, bedw, pîn, criafol a hyd yn oed griafol gwyn. Wrth i chi gerdded o gwmpas y mynydd, rdych hefyd yn debygol o glywed galwad 'honc honc' cigfran wrth iddi droi drosodd tra'n arddagos, galwad 'kee-ow kee-ow' ei pherthynas y frân goesgoch, sy'n llai o faint, a mewian y bwncath wrth iddi hedfan mewn cylchoedd fel fwltur. Bydd swm fel cerrig yn cael eu taro yn ei gilydd yn tynnu eich sylw at aderyn bychan hardd, clochdar y cerrig, yn sefyll ar yr eithin ac yn fflicio ei gynffon.

Yn barod i amddiffyn

Rydych yn sefyll ar gopa'r bryn tu cefn i wal gerrig fawr, yn barod i daflu cerrig efo catapwlt at bobl sy'n ymosod arnoch. Dyma'r math o olygfa a welid tua 2,000 o flynyddoedd yn ôl pan oedd caer ar ben y bryn (Pwynt 3). Mae'r rhagfuriau wedi disgyn i raddau helaeth erbyn hyn ond gellir gweld rhannau isaf y wal gerrig mewn manau, a'r prif fynedfeydd a cherrig ar eu hymylon wedi'u gosod mewn cylchoedd, sy'n dangos lle safai tai crynion oedd, mae'n debyg, â thoeau o wellt neu dywyrch arnynt. Byddwch yn ofalus rhag gwneud difrod i'r waliau. Byddai'r bobl oedd yn byw yma, heblaw am fod yn dda am godi waliau o gerrig sych a thafu cerrig, hefyd yn malu yd ar gerrig mawr, yn gallu troelli edau yn grefftus ac yn defnyddio llestri pren a chroen yn hytrach na rhai crochenwaith.

Noble remains

At point 5 there is a Bronze Age (1900 - 550 BC) burial chamber (cist) that would have contained the cremated remains of some person of note. The ashes would have been in a pot in the ground, this would have been covered with a mound and capstone and surrounded by a circle of stones. The mound has gone but the fallen capstone and circle of stones can still be seen.



Riot of colour

In the summer the hill is ablaze with the yellow of the western gorse and purple of the bell-heather, soon replaced by the pale lilac of the ling. In the autumn the lower slopes are turned a rich rusty colour by the bracken. These plants survive on the thin acidic soils derived from the volcanic and sandstone rocks. Of interest is the way that trees are gaining a foothold on the lower slopes, protected from grazing sheep by the tall bracken. You may spot oak, birch, pine, rowen, even whitebeam. You are also likely to be rewarded with the 'honk honk' of the raven as it flips over in display, the kee-ow-kee-ow of its smaller cousin the chough or the mewing and vulture-like circling of the buzzard, as you walk around the mountain. A sound like stones being knocked together will draw your attention to the handsome little stonechat perched on the gorse and flicking his tail.



Slings at the ready

You are standing poised at the summit of the hill behind a large stonewall ready to catapult stones at your attackers. This was the scene some 2,000 years ago when a fort commanded the hilltop (Point 3). The ramparts have collapsed to a great extent but in places the lower courses of stone wall can be seen, as can the main entrances and stones on edge set in circles, indicating the circular houses which would probably have had roofs of thatch or turf. Take care to avoid damaging the walls. The people who lived here besides being good dry-stone wallers and sling shots, ground corn on large stones, were well practised in spinning thread and used utensils of wood and skin rather than pottery.

